# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

**COFNODION CYFARFOD MIS MAWRTH 2020:**
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, am 7y.h. nos Fercher y 18fed o Fawrth, 2020. **Cynhaliwyd y cyfarfod ychydig ddyddiau cyn y gwaharddiad ar gyfarfodydd oherwydd Covid-19, ond gyda pawb yn cadw pellter oddi wrth eu gilydd.**

**1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Gwilym Evans, Bethan Holding, Iwan Harding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
***Ymddiheuriadau:*** Olwen Gwilym, Iola Owen, Helen Sharp [oherwydd COVID-19].

**2 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**3 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 12fed o Chwefror, 2020 fel rhai cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: KMJ / HS.

**4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
***1. Wal y Fynwent:***
Y wal wedi ei chwblhau. Gwaith ardderchog.
***2. Cynllun Cynefin LleChi:***
Popeth ar stop oherwydd y feirws, ond mae'r cynllun i wneud arddangosfa o ffotograffau Isaac Hughes ar y gweill.
***3. Biniau Halen:***
Chafwyd byth anfoneb am y gwaith.

**5 MATERION ERAILL:**
***1. Defaid:***
Cafwyd adroddiad gan KMJ fod defaid yn crywdro eto. Awgrymwyd efallai y dylid chwilio am rywun i weithredu fel bugail achlysurol i'r Cyngor ond roedd eraill o'r farn y dylid pwyso ar y ffermwr(wyr) i gadw ei stoc o fewn terfynnau yn enwedig o gofio i'r Cyngor hwn gyfrannu yn sylweddol iawn at grid gwartheg ar ffordd yr Hafod yn ddiweddar
***2. Cae Chwarae Min y Llyn:***
Yn dilyn archwiliad blynyddol gan y cwmni yswiriant gwelwyd nad oedd dim difrifol o'i le ar yr offer a'r cae. Trefnodd y Clerc gyda swyddog o Gyngor Gwynedd (CG) i GL Jones edrych ar y rheini a'u trwsio, yn bennaf ar y cwrs coed y tu allan i ffiniau'r cae ei hun. Rhaid cydnabod fod oes yr offer 'tren' wedi dod i ben ac awgrymwyd cael rhywbeth newydd yn y gornel honno. Y Cadeirydd a'r Clerc i holi am offer addas a phris.
***3. Y Wefan:***
Roedd y Wefan wedi ei chwblhau ac yn barod i fynd yn weithredol.
***4. COVID-19 - Coronafeirws:***
Trafodwyd y syniad o gael cynllun i gynorthwyo pobl a fydd yn gorfod meudwyo ac aros yn eu cartrefi oherwydd y feirws. Nid pawb sydd a theulu neu ffrindiau ar gael i gynorthwyo ac felly penderfynwyd ar gynllun i sefydlu grwp o wirfoddolwyr i gynnig cymorth.
Adroddodd y Cadeirydd fod ganddo ffôn symudol a datblygwyd syniad o ddefnyddio'r ffôn fel llinell argyfwng i gynorthwyo pobl i gael meddygyniaethau a neges hanfodol. Byddai'r gwirfoddolwyr ar gael i gasglu'r neges o'r siop, y feddygfa neu'r fferyllfa leol.
Wedi trafod pellach penderfynwyd hysbysebu'r cynllun gyda'r gobaith o'i gael yn weithredol erbyn y penwythnos. Bydd y Clerc yn paratoi hysbysebion i'w rhoi yn y siopau ac o amgylch y ddau bentref, ac yna mewn diwrnod neu ddau wedyn dosbarthu taflenni yn hysbysebu'r rhif ffôn. Bydd rhaid rhoi'r hysbysebion hefyd ar y gwefannau cymdeithasol a'r hysbysfyrddau. HLJ wedyn i ddechrau hel enwau gwirfoddolwyr gan gadw i ryw ddau ddwsin o enwau i ddechrau.
Bydd aelodau o'r Cyngor yn eu tro yn dal y ffôn am rhyw ddeuddydd, gan osod pob cais fel neges ar WhatsApp i'r gwirfoddolwyr. Y cyntaf o'r gwirfoddolwyr i ateb fydd yn gwneud y gymwynas gan gysylltu a'r sawl sydd am help i gael manylion llawn, gwneud y gymwynas ac yna adrodd yn ôl ar WhatsApp fod y gwaith wedi ei gwblhau. Sustem syml a ddylai weithio'n iawn.
Rhif ffôn y Cynllun Cyfaill fydd ***07955.715183.***

**6 GOHEBIAETH:**

***1. CG - Swyddog Cefnogi Cymunedau:***

Nodyn oddi wrth y Cyngor yn holi a oedd gwirfoddolwyr yn yr ardal i gynorthwyo pobl fydd yn ynysu oherwydd y feirws. Y Clerc i gysylltu gyda manylion Cynllun Cyfaill.

***2. Eisteddfod Genedlaethol Cymru:***

Llythyr o ddiolch am gyfraniad y Cyngor tuag at Eisteddfod Genedlaethol 2021 a gynhelir yn Llŷn gyda chymorth ardaloedd Arfon a Dwyfor.

***3. CG - Polion a golau stryd, Nantperis:***

Cadarnhad o'r diwedd fod polion trydan newydd wedi eu gosod ger Bryn Fforch yn y Nant. Roedd Scottish Power wedi oedi'n hir cyn newid y polion. Anfonwyd rhybudd am gyflwr un o'r polion dros flwyddyn yn ôl. Rhaid cydnabod fod CG wedi bod yn ddygn yn pwyso ar y cwmni. Bydd y lampau ar y ddau bolyn yn cael eu cysylltu yn y dyddiau nesaf.

***4. Adra - tai cymdeithasol yng Ngwynedd.***

Cafwyd copi o'r newidiadau yn y polisi a'r drefn o osod tai yng Ngwynedd gan yr asiantaeth uchod. Mae'r newid yn sicrhau fod trigolion Gwynedd yn cael cryn dipyn mwy o flaenoriaeth wrth chwilio am dai cymdeithasol. Roedd y mater yma yn un yr oedd y Cyngor hwn wedi ei god dro'n ôl gyda cwmni ***Adra***.

***5. Hosbis Dewi Sant:***

Pamffledyn a llyfr yn nodi fod yr elusen yn bwriadu cynnal nifer o ddigwyddiadau codi arian yn Llanberis eleni. Nofio 10 cilomedr yn Llyn Padarn ar y 3ydd o Orffennaf a Her Machlud yr Wyddfa taith i'r copa ar yr 16eg o Fai.
Yn wahanol i nifer o fudiadau eraill mae'r trefnydd yn nodi fod yr elusen yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar y mynyddd a'r pentref ac yn gobeithio trefnu Wythnos yn y Gymuned gan gyd weithio a busnesau a grwpiau lleol. Mae'n cynnig dod i gyfarfod y Cyngor. Oherwydd amgylchiadau'r feirws penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd.

***6. Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig:***

Cafwyd nodyn yn dweud fod YDCW wedi gohirio Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon 2020 oherwydd y feirws. Roedd cyfarfod trefnu oedd i'w gynnal ym Meddgelert wedi ei ohirio.

***7. Un Llais Cymru:***

Gwahoddiad i ail ymuno a'r corff sy'n cynrychioli Cymghorau Cymunedol a Threfol. Tâl Aelodaeth £330. Penderfynnu mis nesaf.

**7 CYNLLUNIO:**

**Cyngor Gwynedd:**

• **C20/0217/15/DT -** *Estyniad deulawr, dymchwel y sied gardd presennol a chodi sied newydd ynghyd â llecynnau parcio* **-** 1 Frondeg Uchaf, Llanberis - Dim sylw.

**8 MATERION ARIANNOL:**

**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Chwefror, 2020**
**Cyfrif Cyfredol**: £17,246.82 **Cyfrif Cadw**: £5,362.82
**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**
**CYFANSWM … £7,405.66**
**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/01/2020 a 28/02/2020:**
**CYFANSWM … … £440.91**

Unwaith eto cyflwynwyd taflenni gwariant a derbyniadau i'r Cyngor ynghyd a'r sefyllfa ariannol yn erbyn y Gyllideb.
Cynnig ac eilio: TT / GE

**9 DOGFENNAU:**

Oherwydd yr amgylchiadau ac ansicrwydd ynglyn a'r feirws daethpwyd a'r cyfarfod i ben yn fuan, a phenderfynwyd peidio adolygu a chadarnhau nifer o ddogfennau oedd angen eu cymeradwyo am flwyddyn arall. Yn eu plith y Ddogfen Iaith, Diogelu Data, Cytundeb y Clerc ac Asesiad Risg y Cyngor.

**10 CYFARFOD NESAF:**

Roedd pawb wedi cadw y pellter angenrheidiol oddi wrth eu gilydd, ond oherwydd ansicrwydd ynglyn â chyfarfodydd cyhoeddus penderfynwyd y cynhelid y cyfarfod nesaf pan fyddai'n ddiogel i wneud hynny, neu trwy gyfrwng y We. Dyddiad i'w drefnu..

Arwyddwyd a chafwyd yn gywir…
Rhys ap Gwilym / Cadeirydd
Dei Tomos / Clerc Dyddiad: 30 Ebrill, 2020.

***3/3***